

# Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2014**

Amser: **09.06 – 10.36**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/94eb332b-7169-4891-8897-fc606456585a?autostart=True>

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

Aelodau'r Cynulliad:

**William Powell (Cadeirydd)**  
**Russell George**  
**Joyce Watson**

Tystion:

**Dulson, National Deaf Children's Society (NDCS)**  
**Wyn, Elin Wyn**  
**Munir, Cardiff & Vale College**  
**Rogers, Sustainable Acoustics Ltd**

Staff y Pwyllgor:

**Steve George (Clerc)**  
**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**  
**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**  
**Helen Roberts (Cyngorydd Cyfreithiol)**

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei rhan.

## **2 Deisebau newydd**

**2.1P-04-606 Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn.**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ochr yn ochr â gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd y byddai:

- yn aros am ymatebion o ran P-04-576 'Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol'; ac
- yn ystyried y ddwy ddeiseb ar y cyd yn y dyfodol.

### **2.2P-04-607 Galw ar Lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ochr yn ochr â gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon a sylwadau pellach gan y deisebydd ac eraill. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn y Dirprwy Weinidog ar sylwadau pellach y deisebydd ac eraill.

### **2.3P-04-608 Ymchwiliad i'r GIG yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ochr yn ochr â gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd.

### **2.4P-04-610 Gwrthdroi'r Toriadau i Gronfa Arian Wrth Gefn Prifysgolion**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ochr yn ochr â gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a chytunodd y byddai:

- yn gofyn i'r deisebydd a yw'n fodlon ar gyhoeddiad y Gweinidog y bydd yn ailsefydlu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol; ac
- yn gwneud penderfyniad i gau'r ddeiseb.

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **3.1P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb am i'r deisebwyr ddiolch i'r Pwyllgor am ei ran yn y mater hwn a nodi y byddent yn bwrw ymlaen â thrafodaethau yn y dyfodol â'r Prif Weinidog yn uniongyrchol.

### **3.2P-04-549 Gwnewch 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn Anthem Genedlaethol Swyddogol Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### **3.3P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn wyneb y ffaith bod cyllid yn cael ei gytuno i adeiladu pont newydd ar y cyfle cyntaf, sef amcan y ddeiseb wreiddiol i bob pwrpas.

### **3.4P-04-574 Bws ym Mhorth Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i gau'r ddeiseb gan ei bod yn glir bellach mai penderfyniad gweithredol i'r awdurdod lleol dan sylw yw'r mater hwn; ac
- er nad yw'n cymryd unrhyw gamau penodol pellach o ran y ddeiseb hon, byddai'n ei chadw mewn cof wrth ystyried deisebau eraill ar wasanaethau bysiau 'isranbarthol' y bydd y Pwyllgor yn gweithio arnynt.

### **3.5P-04-590 Cyllid ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- er mwyn hwyluso gwaith pellach ar y cynigion a nodir yn llythyr y deisebwyr, y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad ynghylch pwy y dylai'r deisebwyr weithio gydag ef yn awr i ddatblygu eu cynigion; ac
- i ofyn i'r Gweinidog a fyddai modd i'w swyddogion gysylltu â'r deisebwyr i roi cymorth ac arweiniad.

### **3.6P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i gyflawni darn o waith ar y ddeiseb;
- ei fod yn fodlon â'r dull ar gyfer ymdrin â'r gwaith hwn a amlinellir mewn papur gan y Gwasanaeth Ymchwil;
- i hysbysu Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad am y ddeiseb a'r gwaith yr oedd wedi cytuno ei wneud.

### **3.7P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- y byddai'n cyfleu sylwadau pellach y deisebydd i'r Gweinidog er mwyn gwybodaeth; ac
- i gadw golwg ar y ddeiseb hyd nes y bydd adolygiad o'r rheoliadau wedi dod i ben.

### **3.8P-04-533 Cynllunio Amgylcheddol ar gyfer Safleoedd Tyrbinau Gwynt ar Raddfa Fach**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil cyhoeddiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Nododd y Pwyllgor hefyd mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw nifer o faterion eraill a godwyd gan y deisebwyr.

### **3.9P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Athro Fox, drwy'r deisebydd, a yw'n gallu rhoi tystiolaeth o achosion o saethu er 2009, yn unol â chais swyddogion Llywodraeth Cymru.

### **3.10 P-04-555 Rhwystrwch y cynlluniau anfoesol a llym arfaethedig i'w gwneud yn orfodol i ficrosglodynnu cŵn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### **3.11 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros nes y bydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cwblhau trafod ei Flaenraglen Waith ar 10 Rhagfyr.

### **3.12 P-04-584 Bil Cynllunio Cymru i Ddiogelu Meysydd Tref a Phentref yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i gau'r ddeiseb gan fod y Bil Cynllunio (Cymru) wedi cael ei gyflwyno yn y Cynulliad ar 6 Hydref ac y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar hyn o bryd yn craffu arno yng Nghyfnod 1; ac
- wrth gau'r ddeiseb, i ofyn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ystyried y ddeiseb wrth adrodd i'r Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

### **3.13 P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.**

Gweler y camau a gytunwyd o dan 3.14.

### **3.14 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i dynnu sylwadau pellach y deisebwyr at sylw Bwrdd Iechyd y Brifysgol a gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor ymhen 3 mis am gynnydd o ran datblygu a darparu gwasanaethau wedi cyhoeddi'r adroddiad ar Astudiaeth Gofal Iechyd y Canolbarth.

### **3.15 P-04-560 Gwasanaethau Clefyd Llid y Coluddyn yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i aros am sylwadau pellach gan y prif ddeisebydd; ac
- i geisio ymateb gan y Gweinidog ar y ffaith ei bod yn ymddangos bod pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi ymateb hyd yn hyn yn cefnogi cynllun Gastroenteroleg Cymru gyfan, sef rhywbeth yr ymddengus nad yw'r Gweinidog yn ei gefnogi.

### **3.16 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; ac
- i ystyried y ddeiseb yn y dyfodol ochr yn ochr â P-04-466 (gwasanaethau iechyd gogledd Cymru) a P-04-479 (Ysbyty Coffa Tywyn), sy'n codi nifer o'r un materion.

### **3.17 P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ofyn bod y ddeiseb yn cael ei hystyried yng ngwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar lywodraethu byrddau iechyd yn GIG Cymru.

### **3.18 P-04-580 Cyfyngiadau ar Roi Gwaed**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; ac
- i anfon yr ohebiaeth oddi wrth Wasanaeth Gwaed Cymru at y Gweinidog gan ofyn iddo ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor.

### **3.19 P-04-588 Siarter ar gyfer Plant a Thadau**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i geisio sylwadau pellach gan y Gweinidogion ar sylwadau'r deisebwyr, yn arbennig ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried casglu data am ymgysylltu gwrywaidd a darparu gwybodaeth bellach ynghylch pam na ellir rhannu Rhestr Wirio Asesu Lles Plant a'r Glasoed (CAWAC) yn ehangach; ac
- gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.

### **3.20 P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl Ifanc**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

## 4 Sesiwn Dystiolaeth – P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Atebodd y tystion canlynol gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor:

- Jayne Dulson, Cyfarwyddwr NDCS;
- Elin Wyn, Cynghorydd Polisi NDCS;
- Danyiaal Munir, Myfyriwr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro; a
- Peter Rogers, Cyfarwyddwr Sustainable Acoustics Ltd